Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Gorchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid (Lloegr) 2021
Gorchymyn Twbercwlosis (Yr Alban) 2023
Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd)

# Cyfyngiadau Awtomatig ar Anifeiliaid ac Iechyd y Cyhoedd ar ôl canfod Adweithydd neu Adweithydd Amhendant mewn Prawf Diagnostig Swyddogol ar gyfer Twbercwlosis (TB) mewn Gwartheg, Byfflos neu Fuail

## Mae eich buches o dan gyfyngiadau symud, ac mae ei statws Heb TB Swyddogol (OTF) wedi ei atal dros dro neu'i dynnu'n ôl

Rydych wedi cael y nodyn gwybodaeth hwn oherwydd bod y prawf TB a gynhaliwyd ar eich buches wedi datgelu o leiaf un adweithydd neu adweithydd amhendant. P'un a yw hwn yn brawf cychwynnol neu'n brawf dilynol ar ôl canfod adweithyddion ac/neu adweithyddion amhendant yn ystod prawf blaenorol, mae'r gofynion cyfreithiol canlynol yn berthnasol yn awtomatig i geidwad y fuches:

- rhaid i chi gyfyngu ar symudiad anifeiliaid buchol (gwartheg, byfflos a buail) i'r graddau na chânt eu symud ar y safle nac oddi arno lle y cedwir yr adweithydd neu'r adweithydd amhendant heb drwydded a gyflwynwyd gan APHA. Diffinnir "y safle" fel y daliad ac unrhyw dir sy'n gysylltiedig ag ef dros dro
- rhaid i bob adweithydd gael ei farcio a'i ynysu nes iddo gael ei symud o'ch daliad. Rhaid i bob adweithydd ac adweithydd amhendant gael eu hynysu rhag anifeiliaid buchol sydd wedi cael prawf negyddol a rhag anifeiliaid eraill. Yng Nghymru, oni bai bod APHA wedi cytuno ar oedi, rhaid i adweithydd gael ei symud o fewn deg diwrnod gwaith, neu gellir lleihau'r iawndal a delir.
- mae awdurdodau cymwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru a Lloegr) a Safonau Bwyd yr Alban yn cynghori unwaith y bydd statws OTF eich buches wedi'i golli, ni chaniateir i laeth gan adweithyddion TB gael ei roi mewn swmpdanc na'i yfed gan bobl, ac ni ddylid ei fwydo heb ei drin i loi nac unrhyw famaliaid eraill yn unol â Rheoliad (CE) 853/2004[1]
- dim ond ar ôl triniaeth gwres, yn unol â Rheoliad a Gymathwyd (EC) 853/2004, y gall llaeth gan adweithydd amhendant neu anifeiliaid sydd wedi cael prawf negyddol gael ei yfed gan bobl[2]
- lle bydd yr adweithydd(ion) neu adweithydd(ion) amhendant yn byw ar safle gyda buches odro, mae'n rhaid i chi hysbysu unrhyw un sy'n prynu eich llaeth yn fasnachol o'r ffaith bod y fuches wedi colli statws OTF ar ddechrau'r achos o TB.

## Mae methiant i gydymffurfio â'r cyfyngiadau hyn neu ddilyn y gofynion hyn yn drosedd o dan Adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981

Mae'n rhaid i unrhyw un o weithwyr y fferm neu asiant â'r awdurdod i weithredu ar ran y ceidwad, hysbysu'r ceidwad cofrestredig cyn gynted â phosibl o fethiant y prawf a rhoi'r nodyn gwybodaeth hwn i'r ceidwad, a dylid ei gadw am hyd y cyfyngiadau TB. Caiff y nodyn hwn ei roi bob tro y caiff adweithyddion ac adweithyddion amhendant eu canfod yn ystod prawf TB er mwyn atgoffa ceidwaid o'u cyfrifoldebau cyfreithiol.

### Beth Fydd yn Digwydd Nesaf

Bydd APHA yn cysylltu â chi ynglŷn â phrisio eich adweithyddion a threfnu i'w symud. Byddant hefyd yn rhoi cyngor ac yn trafod â chi sut y caiff yr achos hwn o TB ei reoli a pha gamau pellach y bydd angen eu cymryd o bosibl. Ni chynhelir ymweliadau ymchwiliadau i glefydau gan APHA ymhob achos yn Lloegr ond efallai y bydd angen eu cynnal mewn rhai achosion er mwyn rhoi cyngor penodol ac i

[1] Rheoliad a Gymathwyd (CE) 853/2004, Atodiad III, Rhan IX, Pennod I, Pwynt 4
[2] Rheoliad a Gymathwyd (CE) 853/2004, Atodiad III, Rhan IX, Pennod I, Rhan I, paragraff 3(a)

gasglu gwybodaeth ychwanegol am eich achos o TB. Yn yr Alban, cynhelir ymweliad ymchwiliad i glefyd ar gyfer pob achos newydd o TB. Yng Nghymru, caiff ymchwiliad i glefyd ei gyflawni drwy gysylltu dros y ffôn yn hytrach na thrwy ymweliad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Milfeddyg Cymeradwy/Profwr Lleyg/Arolygydd Milfeddygol APHA: | | Dyddiad | |
| Enw'r Derbynnydd (y ceidwad neu'r person â'r awdurdod i weithredu ar ran y ceidwad) | | | |
| Enw'r Ceidwad Cofrestredig | | CPHH | |
| Cyfeiriad: | Cod Post | | |

**Camau y mae'n Rhaid i Chi eu Cymryd Nawr**

**Symudiadau**

Rhaid i unrhyw drefniadau symud gwartheg i mewn i'r fuches TB o dan gyfyngiad ac allan ohoni gydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol ar reoli clefyd, symud da byw ac adnabod da byw a rhaid eu hategu â thrwydded a gyflwynir gan APHA. Nid yw'r gwaharddiad ar symud yn berthnasol i anifeiliaid buchol a symudir i fan lladd neu ar gyfer triniaeth filfeddygol mewn argyfwng er mwyn atal poen ddiangen i'r anifail hwnnw. Mewn achosion o'r fath, rhaid rhoi manylion llawn i APHA cyn gynted â phosibl. Bydd APHA fel arfer yn trefnu i wartheg adweithyddion TB gael eu symud a'u lladd. Fodd bynnag, os byddwch yn dewis trefnu i'ch anifeiliaid gael eu symud a'u lladd yn breifat, mae'n rhaid i chi hysbysu APHA yn gyntaf a cheisio'r trwyddedau symud a'r ffurflenni angenrheidiol i wneud hynny. Yn yr achos hwn, ni thelir iawndal gan y llywodraeth, ac yn hytrach bydd y lladd-dy yn talu unrhyw dâl am achub yn uniongyrchol i chi. Ar gyfer Lloegr yn unig, os bydd carcas anifail a gafodd ei ladd yn breifat a symudwyd at ddibenion rheoli TB wedi ei gondemnio’n gyfan gwbl yn y lladd-dy am resymau sy'n gysylltiedig â TB, telir iawndal gan y llywodraeth.

**Ynysu**

Gallai adweithyddion ac adweithyddion amhendant beri risg o haint i weddill eich buches ac unrhyw fuchesi cyfagos a rhaid iddynt gael eu hynysu ar unwaith rhag anifeiliaid eraill nes iddynt gael eu symud i gael eu lladd neu gael prawf arall (fel y bo'n briodol). Dylai adweithyddion yn eu tro, gael eu hynysu a'u cadw ar wahân i’r adweithyddion amhendant os yw'n bosibl. Gall gwartheg sy’n llaetha symud i mewn i gyfleuster godro ac allan ohono ar yr amod nad ydynt yn dod i gysylltiad uniongyrchol ag unrhyw wartheg eraill a bod y symudiadau’n digwydd ar ôl i bob buwch arall gael ei godro.

Yn **yr Alban**, mae ynysu yn cynnwys anifeiliaid Cyswllt Uniongyrchol ac mae ‘ynysu’ yn golygu:
(i) cadw’r anifeiliaid ar dir neu mewn llety lle na rennir gofod, draeniau na chyfarpar storio tail ag anifeiliaid eraill
(ii) sicrhau nad oes modd dod i gyswllt trwyn-i-drwyn ag anifeiliaid eraill ar yr un safle neu safleoedd cyfagos a
(iii) pan gânt eu cadw mewn adeilad, rhaid bod rhwystr aerglos yn eu gwahanu oddi wrth anifeiliaid eraill.
(iv) mae ynysu yn cynnwys Cysylltiadau Peryglus a byddai methiant i ynysu adweithyddion, adweithyddion amhendant neu gysylltiadau peryglus yn arwain at ostyngiad o 95% yn swm yr iawndal a delir.

Yng **Nghymru**, ystyr ‘ynysu’ yw cadw gwartheg ar dir neu mewn adeilad, lle na chaiff unrhyw ofod awyr, draeniau, na chyfarpar storio tail eu rhannu â gwartheg eraill.

**Llaeth gan adweithyddion TB**

Mae Rheoliad a Gymathwyd (CE) 853/2004[3], yn rhagnodi rheolaethau hylendid ar gyfer llaeth heb ei drin, llaeth tor a chynnyrch llaeth ac **mae'n gwahardd gwerthu llaeth gan anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB i'w yfed gan bobl.** Rhaid atal llaeth yr anifeiliaid hyn rhag cyrraedd y swmpdanc. Argymhellir na ddylech fwydo llaeth gan adweithyddion neu adweithyddion amhendant i loi na da byw eraill ar eich daliad. Os caiff ei fwydo, gellir ond rhoi llaeth adweithyddion i anifeiliaid ar yr un fferm, ar ôl triniaeth gwres addas, e.e. ar ôl ei ferwi neu ei basteureiddio. Gellir casglu llaeth gan adweithyddion TB yn y system biswail, ond mae'n rhaid i unrhyw waith taenu ar y tir a wneir wedyn fod yn unol ag Eithriad Trwydded Rheoli Gwastraff cofrestredig.

Mae Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yn gymwys i laeth, llaeth tor a chynhyrchion a wnaed ohonynt, pan gaiff ei waredu neu ei ddefnyddio mewn unrhyw le ac eithrio ar y fferm wreiddiol. Cyfeiriwch at y canllawiau sydd ar gael ar GOV.UK https://www.gov.uk/guidance/using-leftover-milk-and-milk-products-as-farm-animal-feed.

Nes y caiff statws OTF eich buches ei adfer, dim ond os yw wedi ei drin â gwres cyn ei roi ar y farchnad y caiff llaeth gan adweithyddion amhendant a gwartheg sydd wedi cael prawf negyddol yn eich buches ei yfed gan bobl, ac mae'n rhaid i Weithredwr y Busnes Bwyd neu'r unigolyn sy'n gyfrifol gysylltu â'i brynwr llaeth i'w hysbysu o hyn.

**Adweithyddion amhendant wedi'u datrys (Lloegr ac, o 1 Ionawr 2026, Cymru yn unig)**

Caiff adweithyddion amhendant sydd wedi cael ail brawf gyda chanlyniadau negatif eu galw'n adweithyddion amhendant wedi'u datrys. Bydd yr holl adweithyddion amhendant wedi'u datrys yn yr Ardal Risg Uchel, yr Ardal Ymylol ac mewn buchesau lle cafwyd achosion TB yn yr Ardal Risg Isel yn Lloegr, ac, o 1 Ionawr 2026, yr holl adweithyddion amhendant safonol wedi'u datrys yng Nghymru, **dan gyfyngiad am weddill eu hoes** i'r daliad lle cawsant eu canfod. Dim ond i ladd-dy neu Uned Besgi Gymeradwy o dan drwydded a roddwyd gan APHA y caniateir symud adweithyddion amhendant wedi'u datrys. Gall gwartheg symud yn uniongyrchol neu drwy Grynhoad Cymeradwy o Anifeiliaid i'w Lladd neu Werthiant Penodedig TB (marchnad oren). Gall llaeth gan adweithyddion amhendant wedi'u datrys gael ei ddefnyddio i'w yfed gan bobl, ond tra bydd eich buches yn parhau o dan gyfyngiadau TB (lle mae statws OTF wedi'i atal neu ei dynnu'n ôl), rhaid iddi gael triniaeth gwres i ddechrau yn yr un modd â llaeth anifeiliaid sydd heb adweithio eraill yn yr un fuches.

Yn Lloegr yn unig, er mwyn rhyddhau adweithyddion amhendant wedi'u datrys o gyfyngiadau oes, gallwch wneud cais am brawf gwaed gama interfferon drwy eich milfeddyg preifat ar eich traul eich hun a gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan APHA.

Ceir rhagor o wybodaeth am adweithyddion amhendant wedi'u datrys yn:

Lloegr: gwefan hwb TB https://tbhub.co.uk/tb-policy/england/resolved-inconclusive-reactor-policy/

Cymru: gwefan Llywodraeth Cymru: https://www.gov.wales/bovine-tb-whole-life-restrictions-resolved-standard-interpretation-inconclusive-reactors

**Diogelu Eich Teulu**

Er mwyn diogelu eich iechyd eich hun ac iechyd eich teulu, argymhellir yn gryf gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban na ddylech yfed llaeth heb ei drin o'ch buches, ac yn sicr nid nes bod y cyfyngiadau ar symud yn cael eu codi gan APHA ar ddiwedd yr achos o TB. I gael rhagor o gyngor ar sut i leihau'r risg i ffermwyr sy'n cael TB gan wartheg heintiedig neu anifeiliaid eraill a allai ddal yr haint, darllenwch y canllawiau perthnasol sydd ar gael ar GOV.UK:
https://www.gov.uk/government/publications/mycobacterium-bovis-mbovis-reducing-the-risk-of-human-infection

**Glanhau a Diheintio**

[3] Rheoliad a Ddargedwir (CE) 853/2004, Atodiad III, Rhan IX, Pennod I, Pwynt 4

Mae hwn yn fesur rheoli clefyd pwysig. O dan rai amodau gall bacteriwm TB buchol oroesi yn yr amgylchedd am amser hir, felly mae'n hanfodol glanhau a diheintio'n drylwyr bob adeilad, ffitiad a chyfarpar lle y mae unrhyw anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB neu'r adweithydd amhendant wedi'u cadw. Byddwch yn cael Hysbysiad (BT05) drwy'r post yn nodi'r gofynion o ran glanhau a diheintio. Rhaid i'r diheintydd a ddefnyddir fod yn un sydd wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio ar gyfer TB buchol a rhaid ei ddefnyddio yn y crynodiad a argymhellir. Ceir rhestr o'r diheintyddion a gymeradwywyd gan Defra eu canfod ar wefan GOV.UK: https://disinfectants.defra.gov.uk/

**Noder bod yn rhaid cwblhau a dychwelyd y BT05 i APHA cyn y gellir codi'r cyfyngiadau ar ddiwedd yr achos.**

Oherwydd y risgiau posibl o ledaenu TB Buchol ar raddfa ehangach, tra bydd eich fferm o dan gyfyngiadau TB, fe'ch cynghorir i daenu tail a slyri gan eich gwartheg chi i'ch tir eich hun yn unig a pheidio â'i gludo dros bellteroedd hir. Dan rai amgylchiadau, gall APHA roi gwaharddiad ar symud tail, slyri neu wastraff anifeiliaid arall o'r safle y mae achosion o TB wedi effeithio arno, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a gyhoeddwyd gan un o arolygwyr APHA.

Cymerwch gamau i leihau'r risg y bydd y clefyd yn trawsgludo i dda byw neu fywyd gwyllt arall drwy dail a slyri. Gallwch ddod o hyd i gyngor cysylltiedig yn:

- Cymru: https://www.gov.uk/government/publications/what-happens-if-tb-is-identified-in-your-herd/dealing-with-tb-in-your-herd-what-to-do-if-bovine-tb-is-detected-in-your-herd-in-wales#biosecurity-measures-you-must-follow

- Lloegr: https://tbhub.co.uk/preventing-tb-breakdowns/protect-your-herd-from-bovine-tb/minimise-infection-from-cattle-manure/

- Yr Alban: https://www.gov.uk/government/publications/what-happens-if-tb-is-identified-in-your-herd/dealing-with-tb-in-your-herd-what-to-do-if-bovine-tb-is-detected-in-your-herd-in-scotland

**Bioddiogelwch**

Symud da byw sydd wedi'u heintio o un fferm i'r llall yw'r ffordd fwyaf tebygol o ledaenu clefydau anifeiliaid. Mae bioddiogelwch effeithiol ac arferion magu anifeiliaid da yn bwysig wrth leihau'r risg o haint TB yn eich buches. Dylai storfeydd bwyd a mannau bwydo gael eu diogelu rhag halogiad posibl gan anifeiliaid sydd wedi'u heintio ac anifeiliaid bywyd gwyllt fel moch daear neu geirw. Sicrhewch fod ffensys perimedr, gan gynnwys mynedfeydd, yn ddigonol er mwyn atal cyswllt trwyn wrth drwyn ag anifeiliaid eraill. Gall dillad, esgidiau, cyfarpar a cherbydau halogedig gludo clefyd o un fferm i'r llall, felly gwnewch yn siŵr bod gennych arferion glanhau a diheintio effeithiol ar waith a'ch bod chi a'ch ymwelwyr yn eu defnyddio.

Bydd eich milfeddyg preifat yn gallu rhoi gwybodaeth ac argymhellion i chi sy'n benodol i'ch anghenion.

**Ffynonellau Gwybodaeth Eraill**

Mae rhagor o gyngor ac arweiniad ar gael ar-lein.
I geidwaid yn Lloegr: https://tbhub.co.uk/advice-during-a-tb-breakdown/actions-once-tb-is-suspected-or-confirmed/
I geidwaid yng Nghymru a'r Alban: https://www.gov.uk/government/publications/what-happens-if-tb-is-identified-in-your-herd

Ceir rhagor o wybodaeth ar y gwefannau canlynol hefyd:

- Hwb TB yn https://www.tbhub.co.uk/
- Gwasanaeth Cynghori TB yn Lloegr yn http://www.tbas.org.uk/
- ibTB yn https://ibtb.co.uk/
- GOV.UK
- Llywodraeth yr Alban yn https://www.gov.scot/publications/bovine-tb/

- Llywodraeth Cymru yn https://www.llyw.cymru/tb-mewn-gwartheg
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn www.food.gov.uk
- Safonau Bwyd yr Alban yn www.foodstandards.gov.scot

**Rhestr Wirio ar gyfer Perchennog**
Mae'r rhestr wirio hon yn crynhoi'r camau gweithredu sydd angen i chi eu cymryd, a bydd yn eich helpu i baratoi ar gyfer prisio a symud eich adweithyddion.

**Camau gweithredu i'w cymryd ar unwaith pan gaiff anifeiliaid sy'n adweithyddion eu canfod:**

- ☐ **Ynysu** adweithyddion ac adweithyddion amhendant o weddill y fuches. Dylai adweithyddion gael eu hynysu a'u cadw ar wahân i adweithyddion amhendant os yw'n bosibl
- ☐ Sicrhau bod anifeiliaid sy'n adweithyddion yn gwisgo **tagiau clust** yn gywir
- ☐ Sicrhau bod **pasbortau** ar gael ar gyfer anifeiliaid sy'n adweithyddion ar adeg yr alwad neu ymweliad prisio (rhowch wybod i APHA ar unwaith os bydd unrhyw basbort ar goll neu'n anghywir)
- ☐ Os yw unrhyw anifail sy'n adweithydd mewn **cyfnod dod oddi ar feddyginiaeth**, dylech roi gwybod i APHA ar adeg yr alwad neu ymweliad prisio
- ☐ Os yw unrhyw anifail sy'n adweithydd yn feichiog ac o fewn y 10% olaf o'i feichiogrwydd, dylech roi gwybod i APHA ar adeg yr alwad neu ymweliad prisio
- ☐ Rhaid i **dystysgrifau llawn** fod ar gael ar gyfer anifeiliaid pedigri (brîd pur) ar adeg yr alwad neu ymweliad prisio. Gallai methu â darparu tystysgrif pedigri lawn arwain at brisiad marchnad is, neu iawndal yn cael ei dalu ar gyfradd anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid pedigri. Yn yr Alban ni all yr iawndal a delir fesul anifail fod yn uwch na £5,000 (neu £7,500 ar gyfer anifeiliaid pedigri). Yng Nghymru ni all yr iawndal a delir fesul anifail fod yn uwch na £5,000
- ☐ Yng Nghymru a Lloegr yn unig, trafodwch â'ch milfeddyg preifat ac APHA os oes angen gohirio'r lladd mewn amgylchiadau eithriadol, e.e. mewn anifeiliaid cyflo trwm sy'n adweithyddion
- ☐ Yng Nghymru yn unig, trefnwch i dystysgrif diagnosis beichiogrwydd gael ei chwblhau gan eich milfeddyg preifat ar gyfer prisio anifeiliaid cyflo sy'n adweithyddion. Bydd angen y dystysgrif hon hefyd os byddwch yn gofyn am ohirio'r lladd er mwyn lloia.

**Camau gweithredu ychwanegol ar gyfer buchesi godro:**

- ☐ Rhoi gwybod i'ch prynwr llaeth eich bod eisoes o dan gyfyngiadau symud TB
- ☐ Rhoi'r gorau i werthu llaeth amrwd a/neu gynhyrchion llaeth amrwd (os yw'n berthnasol)
- ☐ Sicrhau y caiff anifeiliaid sy'n adweithyddion eu godro olaf a bod eu llaeth yn cael ei atal rhag cyrraedd y swmpdanc. **Mae llaeth gan anifeiliaid sy'n adweithyddion yn anaddas i'w yfed gan bobl.** Ni ddylid ei fwydo i loi na mamaliaid eraill oni chaiff ei drin â gwres yn gyntaf.

**Paratoi ar gyfer symud a lladd anifeiliaid sy'n adweithyddion:**

- ☐ Cadarnhau bod pasbortau a thagiau clust yr anifeiliaid sy'n adweithyddion sy'n cael eu hanfon i'r lladd-dy yn gywir
- ☐ Cwblhau **datganiad Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd**
- ☐ Sicrhau bod anifeiliaid sy'n adweithyddion yn **iach i deithio**
- ☐ Sicrhau bod anifeiliaid sy'n adweithyddion yn **lân** pan gânt eu cyflwyno i'r cludwr. Yn Lloegr a'r Alban, byddiawndal yn gostwng 50% os gwelir bod anifeiliaid sy'n adweithyddion yn rhy frwnt yn y lladd-dy i'w prosesu i bobl eu bwyta. Gall APHA hefyd gynnal ymweliad ymchwilio lles.

**Camau i'w cymryd ar ôl symud anifail sy'n adweithydd:**

- ☐ Glanhau a diheintio'r ardal lle yr ynyswyd yr anifeiliaid sy'n adweithyddion ac unrhyw gyfarpar cysylltiedig. Cofio defnyddio diheintydd a gymeradwywyd ar gyfer TB buchol ar y gyfradd

wanedu gywir. Dychwelyd yr hysbysiad BT05 o lanhau a diheintio i APHA er mwyn cadarnhau bod hwn wedi'i wneud

☐ Trefnu ymweliad **Am Ddim** gan y Gwasanaeth Cynghori TB os yw eich daliad wedi'i leoli yn Lloegr. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyngor pwrpasol ar fioddiogelwch dros y ffôn ac wyneb yn wyneb

☐ Trefnu ymweliad Cymorth TB **Am Ddim** gan eich milfeddyg lleol os bydd eich daliad wedi'i leoli yng Gymru.

**Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth**
Nodir sut rydym yn defnyddio eich data personol yn ein siarter gwybodaeth bersonol a'n hysbysiadau preifatrwydd:
https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter
https://www.gov.uk/government/publications/animal-and-plant-heath-agency-privacy-notices

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.